# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 16 TACHWEDD 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C R Doyle | P Lloyd |
| C Thomas | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Mowbray | Rheolwr Datblygu Eiddo |
| Alan Webster | Cynorthwy-ydd Tirlunio (Tyfwr Coed) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J C Bayliss, R D Lewis a/ac P B Smith

### 42 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 43 COFNODION.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 44 OCEANA (LLAFAR).

Cyflwynodd Huw Mowbray, Rheolwr Datblygu Eiddo, y diweddaraf ar lafar am y broses caffael a dymchwel mewn perthynas â safle Oceana. Dywedodd nad oedd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau technegol, a byddai angen i arbenigwyr unigol roi atebion i'r rhain.

Rhoddodd amlinelliad o'r cefndir mewn perthynas ag Adolygiad Fframwaith Strategol Canol y Ddinas o ran y ddwy ganolfan adfywio allweddol, gydag un ohonynt yn cynnwys creu Ardal Fusnes Ganolog/Canolfan Gyflogaeth ar Ffordd y Brenin. Ym mis Ionawr 2015, cymeradwyodd y cabinet egwyddor o ddatblygu rhaglen caffael eiddo strategol ar Ffordd y Brenin er mwyn cefnogi cyflwyno canolfan gyflogaeth, ac un o'r rhain oedd hen adeilad Oceana.

Aeth ymlaen i roi manylion y gwaith prynu a dymchwel, ynghyd â gwybodaeth am y cwnni a gomisiynwyd i gynnal yr arolwg adnewyddu llawn/arolwg dymchwel ac asbestos cyn cam olaf y prif gontract dymchwel.

Amlinellwyd manylion yr asbestos ychwanegol y daethpwyd o hyd iddo a chostau ychwanegol yn ogystal â'r wybodaeth am yr awdurdod yn ceisio adennill y costau ychwanegol a gafwyd.

Gofynnodd yr aelodau amryw o gwestiynau ac ymatebodd y swyddog yn briodol.

**PENDERFYNWYD** y dylid**:**

1. Nodi'r diweddariad;
2. Ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen;
3. Gwahodd swyddogion technegol i gyfarfodydd yn y dyfodol;
4. Darparu'r dogfennau canlynol:
    - Adroddiadau asbestos (Allanol a DASA);
    - Adroddiad archwilio am y prosiect;
    - FPR7;
    - Arolwg Iechyd a Diogelwch;
    - Adroddiadau Cabinet Perthnasol;
5. Ceisio cyngor cyfreithiol mewn perthynas â sesiynau cyhoeddus/caeedig ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Tasg a Gorffen.

## 45 **POLISI COED.**

Roedd Alan Webster, Cynorthwy-ydd Tirlunio (Tyfwr Coed) yn bresennol i gyflwyno trosolwg o'i rôl mewn perthynas â'r Gorchmynion Cadw Coed (GCC).

Amlinellodd y 3 phrif reswm dros gael GCC ar goed sydd ar ein tir:

1. Roeddem wedi prynu tir lle roedd GCC eisoes ar goed ar y tir hwnnw;
2. Roeddem wedi mabwysiadu'r tir e.e. mewn datblygiad newydd ac efallai byddai gofyniad i ddiogelu coed ar y tir hwnnw yn ystod gwaith adeiladu, cyn ei fabwysiadu;
3. Lle rydym yn gwneud hyn yn fwriadol er mwyn diogelu coed penodol.

Dywedodd fod arweiniad o ran cyflwyno cais i wneud gwaith ar goeden a warchodir gan GCC ar gael ar ein gwefan drwy'r ddolen ganlynol:
http://www.abertawe.gov.uk/gcc.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol.

Byddai Martin Bignell yn dod i'r cyfarfod nesaf er mwyn symud gwaith ar y Polisi Coed yn ei flaen.

**PENDERFYNWYD** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

46 **Y DIWEDDARAF GAN Y CADEIRYDD (LLAFAR).**

Adroddodd y Cadeirydd am y canlynol:

1. Byddai'r Strategaeth Mannau Agored yn cael ei hadrodd i gyfarfod Briffio Corfforaethol ym mis Ionawr 2017.
2. Bydd angen trefnu cyfarfod ar y cyd rhwng aelodau Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau a Phwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu er mwyn trafod strategaeth ynni.

47 **CYNLLUN GWAITH.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2016-17.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r cynllun gwaith ar gyfer 2016-2017.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.44 pm

**CADEIRYDD**